OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 680 (Cy.68)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud	- -	*9 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 31B o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**1**) ac adran 24B o Ddeddf Landlord a Thenant 1987(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

Dirymu ac arbed

2.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir drwy hyn Orchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) 1997(**3**) mewn perthynas â Chymru.

(2) Ni fydd effaith i'r dirymiad ym mharagraff (1) o ran unrhyw gais sy'n cael ei wneud, neu achos sy'n cael ei drosglwyddo gan lys sirol, i dribiwnlys prisio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004 ynglŷn â mangre yng Nghymru.

(**1**) 1985 p.70; cafodd ei mewnosod gan adran 83(3) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ("Deddf 2002") ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004 ymlaen [ ]. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1987 p. 31; cafodd ei mewnosod gan adran 86(5) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i ddiddymu gan adran 180 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004, ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999 ac Atodlen 1 iddo. Mae diwygiadau i Orchymyn 1999 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) O.S. 1997/1852.